# Cylch Gorchwyl a Threfniadau Gweithredu Safonol ar gyfer holl Bwyllgorau'r Bwrdd

| | |
| --- | --- |
| **Dyddiad:** 29 Mai 2025 | **Fersiwn:** 7 |
| **Dyddiad Adolygu:** Yn flynyddol | |

## 1. Cyflwyniad:

Mae Adran B, 3 o reolau sefydlog Iechyd Cyhoeddus Cymru yn datgan, "Gall y Bwrdd, a phan y'i cyfarwyddir gan Lywodraeth Cymru, mae'n rhaid iddo, benodi Pwyllgorau naill ai i gyflawni swyddogaethau penodol ar ran y Bwrdd neu i roi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd wrth arfer ei swyddogaethau. Mae ymrwymiad y Bwrdd i fod yn agored ac yn dryloyw wrth ymdrin â'i holl fusnes yn ymestyn yn gyfartal i'r gwaith a wneir ar ei ran gan bwyllgorau".

Yn unol ag Adran B, 3 o'r rheolau sefydlog, bydd y Bwrdd, fel isafswm, yn enwebu pwyllgorau blynyddol sy'n cwmpasu'r agweddau canlynol ar fusnes y Bwrdd:

- Ansawdd a Diogelwch
- Archwilio
- Llywodraethu Gwybodaeth
- Tâl a Thelerau Gwasanaeth.

Mae gan bob un ei bwyllgor ei hun ac eithrio Llywodraethu Gwybodaeth. Bydd y maes pwnc hwn yn cael ei gynnwys o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol.

Mae cynnwys sy'n gyffredin i bob pwyllgor yn y ddogfen hon a dylid ei darllen ochr yn ochr â'r cylch gorchwyl a'r trefniadau gweithredu penodol ar gyfer pob pwyllgor.

Mae darpariaethau Adran B, 7 hefyd wedi'u hystyried wrth ddatblygu Cylch Gorchwyl y pwyllgor. Mae hyn yn ymwneud â thryloywder cyfarfodydd, cynllunio busnes y bwrdd/pwyllgorau, pennu'r agenda ac ati.

## 2. Awdurdod:

Mae pob Pwyllgor wedi'i awdurdodi gan y Bwrdd i ymchwilio i unrhyw weithgaredd (clinigol ac anghlinigol) o fewn ei gylch gorchwyl. Wrth wneud hynny, bydd gan y Pwyllgor yr hawl i archwilio unrhyw lyfrau, cofnodion neu ddogfennau'r Ymddiriedolaeth sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor, gan sicrhau cyfrinachedd cleifion/cleientiaid a staff, fel y bo'n briodol. Gall geisio gwybodaeth berthnasol gan unrhyw un o'r canlynol:

- y cyflogai (a chyfarwyddir pob cyflogai i gydweithredu ag unrhyw gais rhesymol a wneir gan y Pwyllgor); ac

- unrhyw Bwyllgor, is-bwyllgor neu grŵp arall a sefydlwyd gan y Bwrdd i'w gynorthwyo yn ei ddarpariaeth o'i swyddogaethau.

Awdurdodir pob Pwyllgor gan y Bwrdd i gael cyngor cyfreithiol allanol neu gyngor proffesiynol annibynnol arall ac i sicrhau presenoldeb pobl o'r tu allan sydd â phrofiad ac arbenigedd perthnasol os yw'n ystyried bod hynny'n angenrheidiol, yn unol â gofynion caffael, cyllidebol a gofynion eraill y Bwrdd.

Gall y Bwrdd ddirprwyo i Bwyllgorau ar unrhyw adeg. Gall hyn fod i ofyn am sicrwydd neu gyngor neu i ddirprwyo penderfyniadau ar fater penodol o fusnes. Bydd Ysgrifennydd y Bwrdd yn sicrhau bod cofnod yn cael ei gadw o unrhyw eitemau a gyfeirir at Bwyllgorau.

## 3. Is-bwyllgorau a Grwpiau

Gall pob Pwyllgor, yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd, sefydlu is-bwyllgorau neu grwpiau i gyflawni ar ei ran agweddau penodol ar fusnes y Pwyllgor.

## 4. Aelodaeth a'r rhai sy'n Bresennol:

### 4.1 Ysgrifenyddiaeth

Fel y pennwyd gan Ysgrifennydd y Bwrdd.

### 4.2 Penodiadau Aelodau

- Bydd aelodaeth pob Pwyllgor yn cael ei benderfynu bob hyn a hyn gan y Bwrdd, yn seiliedig ar argymhelliad Cadeirydd y Bwrdd – gan ystyried y cydbwysedd sgiliau ac arbenigedd sy'n angenrheidiol i gyflawni cylch gwaith pob Pwyllgor ac yn amodol ar unrhyw ofynion neu gyfarwyddiadau penodol a wneir gan Lywodraeth Cymru. Bydd y Bwrdd yn sicrhau bod trefniadau cynllunio olyniaeth ar waith. Gall Cadeirydd Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru wneud newidiadau bob hyn a hyn i aelodaeth pwyllgorau, os oes angen, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r cylch gorchwyl a'r rheolau sefydlog.

- Penodir Aelodau i ddal swydd am gyfnod o flwyddyn ar y tro, hyd at uchafswm eu cyfnod yn y swydd. Yn ystod y cyfnod hwn, gall aelod ymddiswyddo neu gael ei ddiswyddo gan y Bwrdd. Dylai'r Bwrdd, fel mater o arfer da, adolygu aelodaeth pob Pwyllgor bob dwy flynedd er mwyn sicrhau bod pob Pwyllgor yn cael ei adnewyddu'n barhaus tra'n cynnal parhad.

- Bydd telerau ac amodau penodi aelodau Pwyllgor (gan gynnwys unrhyw dâl cydnabyddiaeth ac ad-daliad) yn unol â thelerau eu penodiad i Iechyd Cyhoeddus Cymru. Pan fo aelod wedi'i gyfethol i gyflawni swyddogaeth benodol a phan nad yw'n Gyfarwyddwr Anweithredol neu'n gyflogai yr Ymddiriedolaeth, bydd hyn yn cael ei benderfynu gan y Bwrdd, yn seiliedig ar argymhelliad Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth ac, os oes angen, ar sail cyngor gan y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth a Thelerau Gwasanaeth yr Ymddiriedolaeth.

### 4.3 Cymorth i Aelodau'r Pwyllgor

Bydd Ysgrifennydd y Bwrdd, ar ran pob Cadeirydd Pwyllgor, yn:

- Trefnu darpariaeth cyngor a chymorth i aelodau pwyllgor ar unrhyw agwedd sy'n ymwneud â chyflawni eu rôl; a

- Sicrhau y darperir rhaglen o ddatblygiad sefydliadol ar gyfer aelodau'r Pwyllgor fel rhan o'r rhaglen Datblygu Sefydliadol gyffredinol.

### 4.4 Tynnu unigolion a oedd yn bresennol yn ôl

Gall pob Pwyllgor ofyn i unrhyw un neu bob un o'r rheiny sydd fel arfer yn mynychu, ond nad ydynt yn aelodau, i dynnu'n ôl er mwyn hwyluso trafodaeth agored a didwyll ar faterion penodol.

Bydd aelodau a mynychwyr hefyd yn tynnu'n ôl o'r cyfarfod, fel y bo'n briodol, pan fo gwrthdaro buddiannau posibl.

Dylid ceisio cyngor gan Gadeirydd y Pwyllgor a/neu Ysgrifennydd y Bwrdd.

## 5. Perthnasoedd ac atebolrwyddau'r Bwrdd a'i Bwyllgorau/Grwpiau:[1]

Er bod y Bwrdd wedi dirprwyo awdurdod i'r Pwyllgorau ar gyfer arfer swyddogaethau penodol, fel yr amlinellir yng nghylch gorchwyl pob Pwyllgor, mae'n cadw'r cyfrifoldeb cyffredinol a'r atebolrwydd am sicrhau ansawdd a diogelwch gofal iechyd i'w ddinasyddion drwy lywodraethu'r sefydliad yn effeithiol.

[1] Mae cyfeiriad at Bwyllgorau/Grwpiau'r Bwrdd yn ymgorffori ei is-bwyllgorau, ei gydbwyllgorau a'i gyd-is-bwyllgorau yn ogystal â grwpiau eraill, megis Grwpiau Gorchwyl a Gorffen, pan fo hyn yn briodol i gylch gorchwyl y Pwyllgor.

Mae pob Pwyllgor yn uniongyrchol atebol i'r Bwrdd am ei berfformiad wrth arfer y swyddogaethau a amlinellir yng nghylch gorchwyl pob Pwyllgor.

Bydd pob Pwyllgor, drwy ei Gadeirydd a'i aelodau, yn gweithio'n agos gyda Phwyllgorau eraill y Bwrdd, gan gynnwys cyd-is-bwyllgorau a grwpiau i roi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd drwy:

- gyd-gynllunio a chydgysylltu busnes y Bwrdd a Phwyllgorau; a
- rhannu gwybodaeth.
- Pan fo meysydd gwaith yn dod o fewn cylch gwaith mwy nag un Pwyllgor, bydd y Cadeiryddion Pwyllgorau perthnasol yn cytuno ar y cyd o fewn cynlluniau gwaith y Pwyllgor sut y caiff meysydd sy'n gorgyffwrdd eu rheoli a byddant yn diffinio'r cylch gwaith yn glir i osgoi dyblygu.
- Bydd y Cadeiryddion Pwyllgorau yn adolygu ac yn nodi meysydd o orgyffwrdd, ac yn cytuno ar y dull gweithredu yn unol â'r trefniadau gweithio ar draws pwyllgorau sydd ar waith.
- Bydd y Cadeiryddion Pwyllgorau yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch rheoli unrhyw feysydd sy'n croesi ei gilydd drwy'r adroddiad i'r Bwrdd.
- Mae gan bob Pwyllgor gyfrifoldeb i sicrhau ei fod yn meddwl yn ddwys am Gydraddoldeb fel rhan o'i ystyriaeth o eitemau o fewn ei gylch gwaith.

Wrth wneud hynny, bydd yn cyfrannu at integreiddio llywodraethu da ar draws y sefydliad, gan sicrhau bod yr holl ffynonellau sicrwydd yn cael eu hymgorffori yn fframwaith risg a sicrwydd cyffredinol y Bwrdd, gan gynnwys sicrhau datblygiad priodol a gwelliannau ansawdd.

Bydd pob Pwyllgor yn ymgorffori safonau, blaenoriaethau a gofynion corfforaethol yr Ymddiriedolaeth, e.e. cydraddoldeb a hawliau dynol, wrth gynnal ei fusnes.

**6. Trefniadau Adrodd a Sicrwydd:**

Bydd pob Cadeirydd Pwyllgor yn:

- dwyn i sylw penodol y Bwrdd unrhyw faterion arwyddocaol sy'n cael eu hystyried gan ei Bwyllgor;
- sicrhau bod trefniadau uwchgyfeirio priodol ar waith i roi gwybod i Gadeirydd, Prif Weithredwr (a Swyddog Atebol) yr Ymddiriedolaeth neu Gadeiryddion pwyllgorau perthnasol eraill am unrhyw faterion brys neu ddifrifol a allai effeithio ar weithrediad a/neu enw da'r Ymddiriedolaeth;
- adrodd yn ffurfiol, yn rheolaidd ac yn amserol i'r Bwrdd ar weithgareddau'r Pwyllgor. Mae hyn yn cynnwys diweddariadau llafar ar weithgarwch, cyflwyno cofnodion Pwyllgorau ac adroddiadau ysgrifenedig pan fo'n briodol, yn ogystal â chyflwyno adroddiad blynyddol.

Gall y Bwrdd hefyd ei gwneud yn ofynnol i Gadeirydd y Pwyllgor adrodd ar weithgareddau'r Pwyllgor mewn cyfarfodydd cyhoeddus, e.e. Cyfarfod

Cyffredinol Blynyddol neu i bartneriaid cymunedol a rhanddeiliaid eraill, pan yr ystyrir bod hyn yn briodol. Gallai hyn fod pan fo rôl sicrwydd y Pwyllgor yn ymwneud â chyfrifoldeb ar y cyd neu gyfrifoldeb a rennir.

Bydd Ysgrifennydd y Bwrdd, ar ran y Bwrdd, yn goruchwylio proses o hunanasesu a gwerthuso rheolaidd a thrylwyr o berfformiad a gweithrediad pob Pwyllgor gan gynnwys unrhyw is-bwyllgorau a sefydlwyd a grwpiau.

## 7. Trefniadau cyfarfodydd pwyllgor

Gellir cynnal cyfarfodydd pwyllgor wyneb yn wyneb neu drwy ddulliau electronig (er enghraifft, ond heb fod yn gyfyngedig i, fideo-gynadledda neu delegynadledda).

**Is-gadeirydd -** Os na all Cadeirydd y Pwyllgor fod yn bresennol yn y cyfarfod gall, gyda chytundeb Cadeirydd y Bwrdd, benodi Is-gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwnnw.

## 8. Camau Gweithredu gan y Cadeirydd

O bryd i'w gilydd, efallai y bydd amgylchiadau pan fydd angen i benderfyniadau a fyddai fel arfer yn cael eu gwneud gan y Pwyllgor, gael eu gwneud rhwng cyfarfodydd a drefnir ac nad yw'n ymarferol galw cyfarfod o'r Pwyllgor.

O dan yr amgylchiadau hyn, gall Cadeirydd y Pwyllgor a'r Arweinydd Gweithredol, gyda chefnogaeth Ysgrifennydd y Bwrdd fel y bo'n briodol, ymdrin â'r mater ar ran y Pwyllgor drwy gamau gweithredu gan y Cadeirydd.

Mae'n ofynnol i'r Cadeirydd ymgynghori ag o leiaf un Cyfarwyddwr Anweithredol arall i gadarnhau cefnogaeth i'r Cadeirydd gymryd camau gweithredu. Mae'r broses hon yn unol â'r broses a amlinellir yn y Rheolau Sefydlog ar gyfer camau gweithredu'r Cadeirydd gan Gadeirydd Bwrdd.

Rhaid i Ysgrifennydd y Bwrdd sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu o'r fath yn cael eu cofnodi'n ffurfiol a'u hadrodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor i'w hystyried a'u cadarnhau.

Ni all y Cadeirydd weithredu os oes gan y Cadeirydd neu'r Arweinydd Gweithredol fuddiant personol neu fusnes mewn mater brys y mae angen penderfyniad arno. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd dau Gyfarwyddwr Anweithredol arall, a Chyfarwyddwr Gweithredol yn gweithredu ar ran yr Arweinydd Gweithredol, yn gwneud penderfyniad ar y mater brys, fel y bo'n briodol.